





## GWERS CYN YMWELD Â LLECHWEDD – TAFLEN GWEITHGAREDD 2

### CERDYN GWEITHGAREDD 1

Mae gen ti a dy grŵp tua 5 munud i ddarllen yr wybodaeth ar y cerdyn  
hwn a chwblhau'r gweithgaredd.

# GRYMOEDD TYNNU A GWTHIO

Gwthio neu dynnu ydy grym. Does dim byd yn gallu symud heb rym. Fel  
grŵp, dewch o hyd i 10 enghraifft o wthio a thynnu sydd i'w gweld o  
gwmpas yr ystafell ddosbarth. Dyma ychydig o luniau i'ch helpu:





## GWERS CYN YMWELD Â LLECHWEDD – TAFLEN GWEITHGAREDD 2


### CERDYN GWEITHGAREDD 2

Mae gen ti a dy grŵp tua 5 munud i ddarllen yr wybodaeth ar y cerdyn  
hwn a chwblhau'r gweithgaredd.

## GRYMOEDD

Edrycha ar y gwrthrychau ar y bwrdd a'u gwrthio neu eu tynnu i weld  
pa effaith mae'r grym gwrthio neu dynnu yn ei gael arnyn nhw.

Fel grŵp, penderfynwch ar y pethau mae grymoedd  
yn gallu achosi i wrthrychau eu gwneud.



Tasg ymestynnol: Tynna luniau o'r gwrthrychau ar gefn y daflen a cheisio defnyddio  
saeth i ddangos cyfeiriad y grym a gafodd ei ddefnyddio ym mhob llun



## GWERS CYN YMWELD Â LLECHWEDD – TAFLEN GWEITHGAREDD 2

### CERDYN GWEITHGAREDD 3

Mae gen ti a dy grŵp tua 5 munud i ddarllen yr wybodaeth ar y cerdyn  
hwn a chwblhau'r gweithgaredd.

## FFRITHIANT

Mae ffrithiant yn digwydd pan fydd dau arwyneb yn cyffwrdd ei gilydd.

Wyt ti a dy grŵp yn gallu profi ffrithiant drwy wthio  
chwalwr a miniwr plastig ar draws y bwrdd?

Pa un yw'r hawsaf i'w wthio ar draws y ddesg?

Pa un sydd â'r mwyaf o ffrithiant?

Gorffenna'r brawddegau ar dy daflen dy hun drwy roi llinell drwy'r gair anghywir:

*Mae arwynebau garw/llyfn yn arafu pethau yn sylweddol.*

*Dydy arwynebau garw/llyfn ddim yn arafu pethau gymaint.*

Tasg ymestynnol: Gwna restr o enghreifftiau lle mae ffrithiant  
yn ddefnyddiol (fel y gafael ar waelod ein hesgidiau)



## GWERS CYN YMWELD Â LLECHWEDD – TAFLEN GWEITHGAREDD 2

### CERDYN GWEITHGAREDD 4

Mae gen ti a dy grŵp tua 5 munud i ddarllen yr wybodaeth ar y cerdyn hwn a chwblhau'r gweithgaredd.

## CURO DISGYRCHIAN

Grym tynnu anweledig ydy disgyrchiant, sy'n tynnu popeth tuag at ganol y Ddaear. Dyma sy'n ein cadw ni ar y ddaear ac yn ein rhwystro rhag codi i'r gofod.

Wyt ti a dy grŵp yn gallu meddwl am ffyrdd o guro disgyrchiant?!

(Awgrym: Sut mae adar yn goresgyn grym disgyrchiant ac yn aros yn yr awyr? Neu sut fyddai modd curo disgyrchiant yn Zip World?!)

Mae adenydd yr aderyn yn gwrthio yn erbyn yr aer, sy'n achosi grym tuag i fyny



Disgyrchiant

Tasg ymestynnol: Tynna lun ar gefn dy daflen i gyd-fynd â dy ddisgrifiadau, gan ddangos cyfeiriad y grymoedd gyda saethau os galli di.



## GWERS CYN YMWELD Â LLECHWEDD – TAFLEN GWEITHGAREDD 2

### CERDYN GWEITHGAREDD 5


Mae gen ti a dy grŵp tua 5 munud i ddarllen yr wybodaeth ar y cerdyn hwn a chwblhau'r gweithgaredd.

# DISGYRCHIAN A FFRITHIAN YN Y ZIP WORLD

Yn Bounce Below, fe gei di gyfle i wibio i lawr sleid hir a chyflym! Ar ôl i ti roi hwb i dy hun o'r top, bydd disgyrchiant yn gwneud yn siŵr dy fod yn teithio tuag i lawr. Ond mae'r ffrithiant rhwng dy ddillad a'r sleid, yn ogystal â gwrthiant o'r aer, yn dy arafu.

Pe baet ti'n gwisgo siwt wedi'i gwneud o bapur tywod, fyddet ti'n teithio'n gyflymach neu'n arafach i lawr y sleid?! Pam?

Wyt ti'n gallu meddwl am o leiaf dair ffordd o leihau ffrithiant i deithio'n gyflymach i lawr y sleid?



Tasg ymestynnol: Meddylia am dair ffordd o arafu dy daith i lawr y sleid! Ysgrifenna nhw ar gefn dy daflen.

## CERDYN GWEITHGAREDD 6


Mae gen ti a dy grŵp tua 5 munud i ddarllen yr wybodaeth ar y cerdyn hwn  
a chwblhau'r gweithgaredd.

# DISGYRCHIANT A GRYMOEDD CROES

Grym anweledig ydy disgyrchiant, sy'n tynnu popeth tuag at ganol y Ddaear.  
Dyma sy'n ein cadw ni ar y ddaear ac yn ein rhwystro rhag codi i'r gofod.

Ond mae grym bob amser yn gwrthio i'r cyfeiriad arall i ddisgyrchiant (o'r aer,  
o'r dŵr neu o'r gwrthrych neu'r tir mae'r gwrthrych yn ei gyffwrdd).

Fel grŵp, trafodwch ba rym sy'n gweithio yn erbyn disgyrchiant yn y lluniau hyn?



Beth sy'n digwydd pan fydd  
grym disgyrchiant yn gryfach  
na'r grym tuag i fyny?!

Tasg ymestynol: Llunia dy ddiagramau dy hun i ddangos disgyrchiant (a'r grym croes) ar gefn dy daflen.



## GWERS CYN YMWELD Â LLECHWEDD – TAFLEN GWEITHGAREDD 2

### CERDYN GWEITHGAREDD 7

Mae gen ti a dy grŵp tua 5 munud i ddarllen yr wybodaeth ar y cerdyn hwn  
a chwblhau'r gweithgaredd.

## ELASTIGEDD YN ZIP WORLD

Mae rhai defnyddiau'n ymestyn wrth gael eu tynnu,  
neu'n crebachu wrth gael eu gwasgu.

Os ydy defnyddiau'n dychwelyd i'w maint gwreiddiol pan mae'r grym yn cael ei dynnu  
oddi arnyn nhw, caiff y rhain eu galw'n **ddefnyddiau elastig** neu'n **wrthrychau elastig**.

Edrycha ar y gwrthrychau ar y bwrdd. Pa rai sy'n elastig?

Mae'r rhwydi yn Zip World wedi'u clymu'n sownd gyda rhaffau bynji. Mae defnyddiau  
elastig fel y rhain yn storio egni ac yn gallu ei ryddhau ac achosi i chi fownsio i fyny.

Tasg ymestynnol: Edrycha o gwmpas yr ystafell ddosbarth, wyt ti'n gallu gweld  
 unrhyw wrthrychau neu ddefnyddiau elastig? Gwna restr ar gefn dy daflen.

